

GRIFFITH, OWEN ('Ywain Meirion,' 'Owen Gospiol'; 1803 - 1868), baledwr a chantwr pen ffair

Enw: Owen Griffith

Ffugenw: Ywain Meirion, Owen Gospiol

Dyddiad geni: 1803

Dyddiad marw: 1868

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: baledwr a chantwr pen ffair

Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Perfformio; Barddoniaeth

Awdur: Robert Thomas Jenkins

Pe gellid credu'n ffyddiog mai ef oedd yr 'Owen Meirion' a sgrifennodd yr ysgrif 'Hanes Tre'r Bala' yn *Y Brython*, 1860, 264-5, yna gellid barnu mai brodor o'r Bala ydoedd. Canai yn y ffeiriau ar hyd ac ar led Cymru - clywir amdano e.e. ym Machynlleth, Holywell, Llanfyllin, Llanrwst, a ffeiriau Sir Gaernarfon; ac yr oedd hefyd yn adnabyddus iawn yn y Deheudir. Gwisgai 'het silc' bob amser. Myn rhai iddo roi'r gorau i ganu, a chymryd at gasglu a gwerthu carpiâu; sut bynnag, adfydus fu ei ddyddiau diwethaf, ar waethaf caredigrwydd **Nicholas Bennett** wrtho; bu farw 'ar y plwyf' yn Llanbryn-mair, 24 Mehefin 1868, yn 65 oed, a chladdwyd yno - gwnaeth '**Mynyddog**' englyn i'w roi ar garreg ei fedd. Y mae 56 o'i faledau ar gael.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Y Geninen, Hydref 1901

nifer o atgofion amdano yn *Cymru (O.M.E.)*, e.e. ii, 48, xiv, 64, xxii, 10, xxvii, 166-7

David Samuel, *Cerddi Cymru casgliad o ganeuon Cymreig, hen a diweddar*, i, 20-2

B. B. Thomas, *Baledi Morgannwg* (1951) (dwy faled ganddo, rhifau xviii a xxv)

rhestr o'i faledau, *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, 60-4, 85

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734063](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Trannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). GRIFFITH, OWEN ('Ywain Meirion,' 'Owen Gospiol'; 1803 - 1868), baledwr a chantwr pen ffair. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 2 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c1-GRIF-OWE-1803>

Griffith

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government